CRONFA BENSIWN DYFED

NEWYDDLEN

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Rhifyn 19 / 2018

Partneriaeth Pensiwn Cymru

Soniais yng nghylchlythyr y llynedd fod yr wyth awdurdod gweinyddu yng Nghymru wrthi'n penodi gweithredwr i reoli buddsoddiadau ar eu rhan. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Link Fund Solutions Cyf (Link) i sefydlu a rhedeg cyd-drefniant buddsoddi at ddefnydd cronfeydd cynlluniau pensiwn llywodraeth leol Cymru yn unig. Partneriaeth Pensiwn Cymru yw cronfa fuddsoddi gyntaf y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i benodi gweithredwr cronfa.

Mae penodi Link yn garreg filltir yn y broses gyfuno ac mae wedi bodloni dyddiad targed Llywodraeth San Steffan o fis Ebrill 2018.

Bydd Link yn sefydlu ac yn rhedeg Cynllun Contractiol Awdurdodedig (cyd-drefniant buddsoddi treth-effeithlon yn y DU) ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Bydd gan y Cynllun Contractiol Awdurdodedig is-gronfeydd mewn amryw o ddosbarthiadau ased a fydd yn diwallu anghenion yr awdurdodau buddsoddi, gan eu galluogi i roi eu gwahanol strategaethau dyrannu asedau ar waith. Gyda chefnogaeth Russell Investments a thrwy ymgynghori â'r wyth cronfa unigol ar gyfer awdurdodau lleol, mae Link wedi dechrau'r broses o benodi nifer o gwmnïau rheoli buddsoddiadau. Mae Link wrthi'n gweithio ar yr is-gronfa gyntaf, Global Equities, a disgwylir i brosbectws yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) gael ei gyflwyno ym mis Mai 2018. Dylai'r is-gronfa hon fod ar waith erbyn diwedd 2018. Drwy ddefnyddio llai o gwmnïau rheoli buddsoddiadau ond sydd â mandadau mwy o faint, disgwylir i'r gronfa roi bod i arbedion ffi, un o brif amcanion polisi'r Llywodraeth.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Cynnal, gan gysylltu o ddydd i ddydd â'r gweithredwr ar ran holl gronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Mae'r strwythur llywodraethu wedi'i sefydlu'n llawn a dyma fe:



Dyraniad Asedau Strategol

Yn dilyn Prisiad Teirblynyddol 2016, cynhaliwyd Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi, yn bennaf yn sgil llif arian y gronfa ar hyn o bryd a gofyniad y Llywodraeth ar i'r holl gynlluniau pensiwn llywodraeth leol gynyddu eu buddsoddiadau seilwaith.

Cyflenwi'r taliadau buddion wrth iddynt godi yw un o brif amcanion Cronfa Bensiwn Dyfed. Argymhelliad yr adolygiad oedd dad-fuddsoddi'r swm llawn presennol (10%) sy'n agored i Stociau Gilt 'hir' wrth Indecs, ar y sail bod y lefelau incwm yn isel iawn ac y byddai'r elw tebygol yn y dyfodol yn siomedig, a gwneud hynny mewn dau gam:

- Trosglwyddo 5% yn syth i eiddo (Schroders) i gydbwyso'r gofynion llif arian a amcangyfrifir ar gyfer 2018-19 a 2019-20.
- Yn y tymor canolig, trosglwyddo'r 5% sy'n weddill o Stociau Gilt 'hir' wrth Indecs i Ased Incwm sydd, yn ogystal â chynnig incwm defnyddiol dderbyniol (targed o leiaf 4-5% y flwyddyn), hefyd yn cynnig twf rhesymol o ran cyfanswm yr elw.

Yn ogystal, argymhellwyd y dylid pennu bod 5% o'r dyraniad asedau strategol (SAA) yn agored i seilwaith, a fydd yn cael ei gyllido o ddyraniad presennol yr ecwiti pan nodir seilwaith gyda'r nodweddion cywir a'r pris, boed drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru neu ryw ffordd arall.

Bydd yr argymhellion hyn yn cydbwyso'r llif arian fydd yn dilyn a bydd hefyd yn debygol o wella proffil buddsoddi'r gronfa yn y dyfodol: elw, risg ac effeithlonrwydd.

Llwyddiant yng Ngwobrau'r LAPF 2017

Mae'n bleser gan Gronfa Bensiwn Dyfed gyhoeddi ei bod wedi ennill dwy wobr fawreddog yng Ngwobrau Buddsoddi 2017 Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPF) a gynhaliwyd ar 19 Medi 2017. Llwyddodd y Gronfa i ennill Gwobr Cronfa'r Flwyddyn ar gyfer cynlluniau pensiwn llywodraeth leol (o dan £2.5 biliwn) a Gwobr am Weinyddu Cynllun.

Gallwch weld rhestr lawn o'r enillwyr drwy glicio ar y ddolen isod:
http://www.lapfinvestmentsawards.com/lgps_finalists/

Dyddiadau Talu Pensiwn

27 Ebrill 2018	**31 Awst 2018**	**21 Rhagfyr 2018**
31 Mai 2018	**28 Medi 2018**	**31 Ionawr 2019**
29 Mehefin 2018	**27 Hydref 2018**	**28 Chwefror 2019**
27 Gorffenaf 2018	**30 Tachwedd 2018**	**29 Mawrth 2019**

Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn

Yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2017 a'r ffaith bod Cadeirydd y Gronfa Bensiwn ac aelodau eraill wedi rhoi'r gorau iddi, mae'r canlynol yn aelodau newydd o Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed: y Cynghorydd Elwyn Williams (Cadeirydd), y Cynghorydd Jim Jones, y Cynghorydd John Prosser a'r Cynghorydd Dai Thomas (Aelod Dirprwyol).

Mae cynllun hyfforddi ar waith ac ers eu penodi ym Mehefin 2017 mae'r aelodau i gyd wedi mynychu amryw o ddigwyddiadau hyfforddi a drefnwyd gan y swyddogion, y rheolwyr buddsoddi a'r Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol, yn ogystal â seminarau a chynadleddau amrywiol. Mae pedwar cyfarfod o bwyllgor y gronfa bensiwn wedi'u cynnal ers iddynt gael eu penodi, ac roedd y diweddaraf o'r rhain ar 14 Mawrth 2018. Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2018.

Hoffwn groesawu'r aelodau newydd, sydd wedi ymgynefino'n dda â'u rolau newydd, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda nhw dros y blynyddoedd nesaf. Rwy'n ffyddiog y bydd yr aelodau hyn yn parhau â gwaith da eu rhagflaenwyr.

Bwrdd Pensiwn

Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol 2015 sefydlwyd Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed ar 1 Ebrill 2015 ac mae'n cynnwys Cadeirydd Annibynnol, 3 Chynrychiolydd Cyflogwyr a 3 Chynrychiolydd Gweithwyr. Mae'r Bwrdd Pensiwn yn darparu rôl oruchwylio/craffu ac felly nid corff gwneud penderfyniadau ynglŷn â rheoli'r Gronfa Bensiwn ydyw, ond gall wneud argymhellion i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn.

Mae'r Bwrdd ar waith ers 3 blynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw cynhaliwyd naw cyfarfod, a'r mwyaf diweddar ohonynt ar 18 Ionawr 2018. Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ar 24 Ebrill 2018. Cyfarfodydd cyhoeddus yw'r rhain a gellir cael gwybodaeth amdanynt ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae aelodau'r bwrdd wedi ennill gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth am Gronfa Bensiwn Dyfed a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y timau gweinyddu a buddsoddi. Mae rhaglen hyfforddi ar waith ac mae aelodau'r bwrdd wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau hyfforddi penodol.

Mae'r Bwrdd wrthi'n edrych am un cynrychiolydd gweithwyr i gymryd lle un o'r cynrychiolydd gweithwyr presennol. Os oes diddordeb gennych mewn ymuno â'r Bwrdd, a'ch bod yn aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed, gellir cael rhagor o wybodaeth ar y wefan ynghylch sut i ymgeisio. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 31 Mai 2018.

Gweinyddu

Bu'n flwyddyn brysur tu hwnt unwaith eto ac rwy'n siŵr ichi sylwi ar y llwyddiant a gafwyd yng Ngwobrau'r LAPF 2017. Parhaodd Cronfa Bensiwn Dyfed i fod yn awdurdod arweiniol o ran ymgymryd â gwaith partneriaeth â'n cyd-gronfeydd pensiwn yng Nghymru.

Yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol mae'r gronfa bensiwn wedi llunio strategaeth weinyddu. Amcan y strategaeth yw rhoi diffiniad clir o rolau a chyfrifoldebau Cronfa Bensiwn Dyfed, a'r cyflogwyr sy'n rhan ohoni, o dan y Rheoliadau. I ategu'r strategaeth weinyddu mae'r gronfa wedi llunio Siarter Cwsmeriaid sy'n amlinellu ein hymrwymiad i bob rhanddeiliad, ynghyd â chyfarwyddeb Safonau Gwasanaeth sy'n amlinellu amserau prosesu ein gweithdrefnau gweinyddu. Rydym yn parhau i werthuso meysydd i'w gwella ac mae pob croeso i aelodau'r cynllun roi adborth.

CPLIL 2014

Rwy'n siŵr eich bod i gyd yn gyfarwydd gyda'r cynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa a gyflwynwyd o 1 Ebrill, 2014. Mae'r tabl isod yn dangos y prif ddarpariaethau o'r cynigion am y CPLlL newydd am aelodaeth o 1 Ebrill 2014:

	CPLIL 2014
Sail y Pensiwn	Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi eu Hailbrisio (CARE)
Cyfradd gronni	1/49fed
Cyfradd ailbrisio	Mynegrif Prisiau Defnyddwyr (MPD)
Oedran Pensiwn Arferol	Yn cyfateb i Oedran Derbyn Pensiwn gan y Wladwriaeth (Isafswm Oed 65)
Hyblygrwydd o ran Cyfraniadau	Gall aelodau ddewis talu cyfraniadau o 50% i dderbyn 50% o'r buddion pensiwn
Diffiniad Tâl Pensiynadwy	Wedi ei seilio ar yr union dâl pensiynadwy, ac i gynnwys goramser nad yw'n gytundebol ac oriau ychwanegol yn achos staff rhan amser
Cyfnod Breinio	Wedi cynyddu o 3 mis i 2 flynedd

Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar **wefan Cronfa Bensiwn Dyfed** sydd wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r holl newidiadau rheoleiddiol, ynghyd â ffeithlenni a nodiadau cyfarwyddyd diwygiedig.

Budd-daliadau Partneriaid Cyd-fyw

O 1 Ebrill 2008 ymlaen mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ei newydd wedd yn rhoi pensiwn i Briod neu i Bartner Sifil a hefyd i bartner cyd-fyw enwebedig.

Mae'r Rheoliadau yn pennu rhai amodau fel a ganlyn:

- Gall unigolyn A briodi neu ffurfio partneriaeth sifil gyda B
- Mae unigolion A a B yn byw gyda'i gilydd fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil
- Nid yw A na B yn byw gyda thrydydd person fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil a
- Naill ai mae B yn ddibynnol yn ariannol ar A neu mae A a B yn dibynnu ar ei gilydd.

Mae newidiadau i reolau'r cynllun o Ebrill 2014 yn darparu y bydd pensiwn goroeswr yn cael ei dalu'n awtomatig i bartner cyd-fyw hed fod angen i'r aelod gwblhau ffurflen sy'n enwebu nhw i dderbyn pensiwn goroeswr.

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu a'r Adain Gweinyddu Pensiynau neu drwy wefan y Gronfa.

Menter Twyll Genedlaethol

Mae'r Gronfa yn dal i fod yn rhan o'r **fenter genedlaethol yn erbyn twyll**, a drefnir gan y Comisiwn Archwilio, lle mae'r data a ddarperir yn cynnwys manylion Pensiwn Galwedigaethol a manylion y Gyflogres. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chymharu â data cyrff cyhoeddus eraill, sy'n helpu i:

- Sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arian cyhoeddus
- Sicrhau na thelir pensiwn i berson sydd wedi marw
- Sicrhau bod incwm Pensiwn Galwedigaethol yn cael ei ddatgan gan hawlwyr Budd-dal Tai.

Cyfraddau Cyfrannu y Gweithiwr

Mae'r CPLlL 2014 wedi newid y ffordd o asesu'r cyfradd cyfrannu o 'cyfwerth amser llawn' o daliad pensiynadwy i 'taliad pensiynadwy gwirioneddol'. Fydd cyfraniadau pensiwn nawr hefyd yn daladwy ar oramser. Cyfrifoldeb y Cyflogwr yw pennu cyfradd ennill a chyfrannu'r aelodau, ynghyd â rhoi gwybod i'r Gronfa am hyn. Lle bod gan aelod fwy nag un swydd gyda Chyflogwr, bydd angen asesiad ar wahân ar gyfer pob swydd.

Mae'r tabl isod yn nodi'r bandiau enillion a'r cyfraddau cyfrannu sy'n berthnasol yn 2018-2019.

Tabl Cyfraniad Aelodau o 1 Ebrill 2018

Tabl Cyfraniad 2018/19			
Band	**Cyflog Pensiynadwy Gwironeddol am gyflogaeth**	**Gyfradd cyfraniad ar gyfer y gyflogaeth**	
		Prif adran	Adran 50/50
1	Hyd at £14,100	5.50%	2.75%
2	£14,101 i £22,000	5.80%	2.90%
3	£22,001 i £35,700	6.50%	3.25%
4	£35,701 i £45,200	6.80%	3.40%
5	£45,201 i £63,100	8.50%	4.25%
6	£63,101 i £89,400	9.90%	4.95%
7	£89,401 i £105,200	10.50%	5.25%
8	£105,201 i £157,800	11.40%	5.70%
9	£157,801 neu fwy	12.50%	6.25%

Diogelwch Statudol – y 'Tanategu'

Cynigir diogelwch os ydych yn agosáu at ymddeoliad er mwyn sicrhau y byddwch yn cael pensiwn sydd o leiaf yn gyfartal i'r hyn y byddech wedi'i dderbyn dan y cynllun pe na bai wedi newid ar 1 Ebrill 2014. Yr enw ar y diogelwch hwn yw'r 'tanategu'.

Mae'r tanategu yn berthnasol i chi os:

- oeddech yn talu i'r Cynllun ar 31 Mawrth 2012, ac
- oeddech o fewn 10 mlynedd i'ch Oedran Pensiwn Arferol ar 1 Ebrill 2012
- nad ydych wedi cael toriad o fwy na 5 mlynedd mewn gwasanaeth sy'n eich anghymhwyso
- nad ydych wedi derbyn unrhyw fuddion dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn yr Oedran Pensiwn Arferol a
- rydych yn ymadael â hawl i gael eich buddion yn syth.

Bydd yr Adain Gweinyddu Pensiynau yn cyfrifo'r tanategu yn awtomatig pan fyddwch yn gadael y Cynllun.

Rheol 85

Mae rheol 85 yn diogelu rhai neu'r cyfan o'ch buddion rhag y gostyngiad arferol am dalu'n gynnar. Er mwyn cael diogelwch rheol 85, rhaid eich bod yn aelod o'r CPLlL ar 30 Medi 2006. Bodlonir rheol 85 os yw eich oedran ar y dyddiad pan fyddwch yn derbyn eich pensiwn yn ogystal â'ch aelodaeth yn y Cynllun (pob un mewn blynyddoedd llawn) yn dod i 85 mlynedd neu fwy.

Os oes gennych ddiogelwch rheol 85, bydd hyn yn parhau i fod yn berthnasol o Ebrill 2014 ymlaen. Yr unig bryd pan na fydd y diogelwch hwn yn berthnasol yn awtomatig yw os byddwch yn penderfynu derbyn eich pensiwn yn wirfoddol yn 55 oed, neu wedi hynny, a chyn eich bod yn 60 oed, **heb** ganiatâd eich cyflogwr.

I gael dealltwriaeth fanylach o'ch sefyllfa chi, dylech fewngofnodi i 'Fy Mhensiwn Ar-lein' neu gysylltu â'r Adain Gweinyddu Pensiynau yn uniongyrchol.

Gwerthuso Swyddi a Statws Unffurf

Lle bo gostyngiad mewn cyflog yn digwydd o ganlyniad i ymarferion gwerthuso swyddi neu statws unffurf, gall aelod o'r cynllun ddewis defnyddio cyfartaledd blynyddol y tair blynedd olynol orau o gyflog hyd at 31 Mawrth yn ystod y 13 blynedd olaf o gyflogaeth, at ddibenion cyflog terfynol. Os yw aelodau'r Cynllun am wneud y dewis hwn, mae'n rhaid iddynt benderfynu ar hynny o leiaf fis cyn y dyddiad y daw eu haelodaeth yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i ben. Mae ffeithlen 'Gwerthuso Swyddi a'ch Buddion Pensiwn' ar gael ar y wefan.

Diwygio'r Dreth

O fis Ebrill 2016, mae'r Lwfans Oes ar gyfer cynilo pensiynau treth-freintiedig wedi lleihau o £1.25 miliwn i £1 filiwn. Fel yn achos newidiadau blaenorol i'r Lwfans Oes, mae dwy ffordd newydd i ddiogelu, a bydd y rhain yn gweithio mewn ffordd debyg i warchodaeth flaenorol, y warchodaeth newydd yw Gwarchodaeth Benodedig 2016 a Gwarchodaeth Unigol 2016.

Yn Cyllideb Hydref 2017, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd y Lwfans Oes ar gyfer 2018/19 yn cynyddu i £1.03 miliwn. Dyma gyfanswm gwerth yr holl fuddion pensiwn y gallwch eu hadeiladu heb achosi cost treth gormodedd buddion. Ar eich ymddeoliad bydd gofyn ichi ddatgan eich holl fuddion pensiwn nad ydynt yn rhai Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd yn cael eu talu ichi, neu sydd ar fin dod yn daladwy, fel y gellir asesu eich Lwfans Oes. Ceir manylion pellach am sut gall y rhain effeithio arnoch chi ar wefan HMRC. Noder na all staff pensiynau roi cyngor ariannol na chyngor trethiant personol.

Fe gofiwch y bu i gyfyngiad Lwfans Blynyddol ostwng i £40,000 ym mis Ebrill 2014 ac mae'r cyfyngiad hwn yn parhau. I gyfrifo gwerth unrhyw gynnydd blynyddol yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae angen ichi gyfrifo'r gwahaniaeth yng nghyfanswm gwerth unrhyw fuddion pensiwn cronedig rhwng dau 'gyfnod mewnbwn pensiwn', fel arfer o fis Ebrill i fis Mawrth. Gwneir hyn drwy luosi gwerth y cynnydd yn y pensiwn ag 16 ac adio'r cynnydd yng ngwerth unrhyw gyfandaliad a chronfa cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol. Bydd eich Datganiad Buddion Blynyddol 2018 yn cynnwys gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith y lwfans blynyddol ar eich croniad pensiwn yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Rhaid i ganlyniad y cyfrifiad hwn wedyn gael ei ychwanegu at unrhyw gynnydd mewn hawl i bensiynau a allai godi o unrhyw drefniant pensiwn arall a allai fod gan unigol er mwyn canfod a yw'r cyfanswm yn uwch na'r cyfyngiad blynyddol.

Fy Mhensiwn Ar-lein

Beth fydd Fy Mhensiwn Ar-lein yn caniatau i mi wneud?
P'un a ydych yn aelod gweithredol o'r Cynllun, yn aelod gohiriedig neu'n bensiynwr, gallwch weld eich manylion sylfaenol a'u diweddaru, cyrchu ffurflenni perthnasol a derbyn pob cyhoeddiad yn ddiymdroi, gan gynnwys y Datganiad Blynyddol o'ch Buddion, newyddlenni a ffeithlenni. Os ydych yn aelod gweithredol byddwch yn gallu cyfrifo'ch buddion ar adeg sy'n gyfleus ichi er mwyn cynllunio'ch ymddeoliad yn ymarferol.

Os ydych yn bensiynwr, byddwch yn gallu gweld manylion eich pensiwn, gwneud newidiadau o ran manylion eich cyfrif banc/cymdeithas adeiladu neu eich cyfeiriad, gweld eich cofnod taliadau a'ch côd treth, dyddiadau talu, slipiau talu, datganiadau P60 a'ch datganiadau ynghylch y cynnydd yn y pensiwn.

Sut y gallaf gofrestru am Fy Mhensiwn Ar-lein?
Ni allai fod yn haws. Y cyfan sydd angen ichi wneud yw cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed drwy ffonio **01267 224043** neu ebostio: **pensiynau@sirgar.gov.uk** i ofyn am allwedd.

Bydd allwedd yn cael ei hanfon atoch yn uniongyrchol i'ch cyfeiriad cartref a bydd gofyn ichi fewngofnodi i 'Fy Mhensiwn Ar-lein' drwy wefan y Gronfa: **www.cronfabensiwndyfed.org.uk**

Gofynnir ichi nodi eich cyfenw, eich rhif Yswiriant Gwladol, eich dyddiad geni a'r allwedd ac yna cewch gyfle i greu enw defnyddiwr, cyfrinair a chwestiynau diogelwch.

Buddsoddiadau

Ni fu newidiadau i Reolwyr Buddsoddi'r Gronfa yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Gronfa yn parhau i gael ei rheoli gan:

- BlackRock (ecwitis rhanbarthol, llog sefydlog)
- Schroders (Eiddo Ledled Ewrop)
- Partners Group (Eiddo Ledled Ewrop)
- Columbia Threadneedle (ecwitis byd-eang) a
- Baillie Gifford (ecwitis byd-eang).

Gwerth a Pherfformiad y Gronfa

Mae gwerth y gronfa wedi cynyddu i £2.5bn ar 31 Rhagfyr 2017:

	Gwerth (£m)	Cronfa (%)
BlackRock	1,712	68
Schroders	203	8
Partners Group	44	2
Columbia Threadneedle	261	12
Baillie Gifford	309	10
CYFANSWM	**2,529**	**100**

Mae'r gronfa wedi parhau i berfformio'n dda yn 2017 fel y dangosir yn y tabl isod:

	3 mis i Ragfyr 2017 %	12 mis i Ragfyr 2017 %	3 blynedd i Ragfyr 2017 % pa
Perfformiad y Gronfa	4.7	13.4	12.6
Meincnod	4.6	12.1	12.1
Tan/Gorberfformiad	**0.1**	**1.3**	**0.5**

Manylion Cyswllt

Mae eich manylion cyswllt y Gronfa dangosir isod:

Buddsoddiadau Pensiwn

Anthony Parnell
Rheolwr Pensiwn a Buddsoddiad Gyllidol
01267 224180
AParnell@sirgar.gov.uk

Paul James
Swyddog Buddsoddi Pensiynau
01267 224136
SPJames@sirgar.gov.uk

Tracey Williams
Cyfrifydd Cynorthwyol
01267 224129
TLWilliams@sirgar.gov.uk

Tina Leigh
Technegydd Cyfrifon
01267 224106
TLeigh@sirgar.gov.uk

Gweinyddu Pensiynau

Kevin Gerard
Rheolwr Pensiynau
01267 224157
KGerard@sirgar.gov.uk

Martin Morgan
Dirprwy Rheolwr Pensiynau
01267 224452
MMorgan@sirgar.gov.uk

Mathew James
Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddiant
01267 224043
MaJames@sirgar.gov.uk

neu yn hytrach

pensions@sirgar.gov.uk

Ymholiadau ynglyn a aelodaeth a Buddion

Cyfenw A-G	**01267 224903**
Cyfenw H-O	**01267 224896**
Cyfenw P-Z	**01267 224644**